



Trinity Saint David
**Students'
Union**

**Undeb
Myfyrwyr**
Y Drindod Dewi Sant

Achrediad Clybiau a Chymdeithasau



Pecyn Cymorth Rhyddhad

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gwblhau elfen Ryddhad o Achrediad yr UM.



Rhestr Cynnwys

Rhyddhad a Gweithgaredd tuag at yr Elfen hon	1
Cymorth ar gyfer Amcanion Cyffredin	1
Mynychu Ffair y Glas a chynnal 'Rhowch Gynnig Arni'	1
Cynnal 1 Digwyddiad Codi a Rhoi (RAG)	1
Cynnal 1 Digwyddiad Codi Arian	1
Cael 2 aelod i fynychu Hyfforddiant Cymorth Cyntaf.....	1
Cynnal 1 digwyddiad ar-lein i hyrwyddo cynhwysiad myfyrwyr sy'n byw oddi ar y safle	1
Cymryd rhan neu gynnal un digwyddiad Rhyddhad yr UM / Prifysgol sy'n berthnasol i'ch grŵp	3
Awgrymiadau ar gyfer cynllunio digwyddiad	4
Templed ar gyfer Gweithredoedd	4
Ymgysylltu â'r Swyddog Rhan-amser / Arweinydd Rhyddhad perthnasol a'u digwyddiadau	5
Sicrhau bod eich cyfansoddiad yn gynhwysol.....	7
Canllaw cynhwysiant clybiau a chymdeithasau	8
Nodi Elusen Ryddhad i'w chefnogi trwy godi arian a / neu godi ymwybyddiaeth	9
Rhestr gyflwyno elusennau rhyddhad.....	9
Creu llawlyfr tîm / cymdeithas ar gyfer digwyddiadau a chyfleusterau cynhwysol	9

Gweithgaredd ar gyfer yr Elfen Ryddhad:



Mae'r elfen Ryddhad yn cynnwys gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar wneud eich clwb/cymdeithas yn fwy cynhwysol. Nod y pecyn cymorth hwn yw eich cynorthwyo i gwblhau'r gweithgareddau hyn gyda'ch clwb/cymdeithas a fydd yn eich addysgu chi a'ch aelodau ynghylch rhyddhad, cynhwysiant ac amrywioldeb. Bydd hefyd yn eich helpu i adeiladu cysylltiadau â'r Brifysgol, Undeb y Myfyrwyr a'r gwahanol rwydweithiau rhyddhau dan arweiniad myfyrwyr. Bydd y pecyn hefyd yn eich helpu i archwilio gwahanol elusennau a sut maen nhw'n helpu i gefnogi a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer gwahanol fyfyrwyr. Y gobaith yw y bydd y gwaith ar gyfer yr elfen hon yn helpu pob aelod i fod yn fwy agored a thrin pob myfyriwr yn gyfartal yn eu bywyd bob-dydd, ac yn benodol, sicrhau bod gweithgareddau, digwyddiadau a.y.b. yn hygyrch i bawb.

- Amcanion Cyffredin
 - o Mynychu Ffair y Glas a chynnal 'Rhowch Gynnig Arni'
 - o Cynnal 1 Digwyddiad Codi a Rhoi (RAG)
 - o Cynnal 1 Digwyddiad Codi Arian
 - o Darparu rhestr gyfoes o offer
 - o Cael 2 aelod i fynychu hyfforddiant Cymorth Cyntaf
 - o Cynnal 1 digwyddiad ar-lein i hyrwyddo cynhwysiad myfyrwyr sy'n byw oddi ar y safle
- Cymryd rhan neu fynd ati i Gynnal un digwyddiad Rhyddhad gyda'r UM / Prifysgol sy'n berthnasol i'ch grŵp
- Ymgysylltu â'r Swyddog Rhan-amser / Arweinydd Rhyddhad perthnasol a'u digwyddiadau
- Sicrhau bod eich cyfansoddiad yn gynhwysol
- Nodi Elusen Ryddhad i'w chefnogi trwy godi arian a / neu godi ymwybyddiaeth
- Creu llawlyfr ar gyfer eich tîm/cymdeithas ar gyfer digwyddiadau a chyfleusterau cynhwysol

Cymorth ar gyfer Amcanion Cyffredin:

Mae'r gweithgareddau Amcanion Cyffredin yn bresennol ym mhob elfen o'r Achrediad, a dim ond unwaith y mae angen eu cwblhau. Mae hyn yn golygu, os



byddwch chi'n eu cwblhau ar gyfer Rhyddhad, ond eich bod yn dymuno symud i ail (neu drydedd) elfen, byddwch eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y maes hwnnw. **AC: Mae hyn o flaen teitl gweithgaredd yn nodi y bydd cwblhau'r gweithgaredd hwnnw'n cyfrif ar gyfer pob elfen o'r achrediad!**

Rydym wedi cynnwys rhai adnoddau cymorth ar gyfer yr amcanion cyffredin isod, ond os ydych chi'n dal i fod yn ansicr ynghylch y camau nesaf, cysylltwch â'ch Cydlynnydd Cyfleoedd Myfyrwyr:

- Llambod: laura-cait.driscoll@uwtsd.ac.uk
- Abertawe: Andrew.g.jones@uwtsd.ac.uk
- Caerfyrddin: Laura.yates@uwtsd.ac.uk
- Campysau Cyswllt: Rebecca.crane@uwtsd.ac.uk

AC: Mynychu Ffair y Glas a chynnal 'Rhoi Cynnig Arni'

Un o'r cyfnodau mwyaf cyffrous yn y flwyddyn academiaidd, i fyfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n dychwelyd, yw'r cychwyn cyntaf. Pan fydd myfyrwyr newydd yn cyrraedd, maent wrthi'n chwilio am rywbeth i gymryd rhan ynddo; mae gan rai rywbeth penodol iawn mewn golwg, ond mae yna rai eraill sydd dim ond am roi cynnig ar rywbeth newydd a gwneud y gorau o'u profiad prifysgol. Mae hyn yn wir am fyfyrwyr sy'n dychwelyd hefyd. Mae'n bosib bod rhai myfyrwyr wedi cael syniad dros gyfnod yr haf ac wedi penderfynu: "Rydw i'n mynd i gymryd rhan mewn clwb neu gymdeithas eleni" a dyna pam mai Ffair y Glas yw eich cyfle i ddal sylw'r myfyrwyr hyn.

Pethau i'w gwneud:

- Gwnewch yn sicr fod eich stondin yn Ffair y Glas yn ddiddorol ac yn cynrychioli'ch clwb neu'ch cymdeithas yn weithredol
- Sicrhewch fod aelodau'ch tîm / pwyllgor sy'n gyfrifol am siarad â myfyrwyr newydd yn mynnu eu sylw ac yn groesawgar
- Dilynwch yr holl reoliadau GDPR a osodwyd gan yr UM, er enghraifft, dim copïau caled o wybodaeth sensitif. Rhewch gynnig ar ddefnyddio'r rhaglenni ar wefan yr UM a grwpiau cyfryngau cymdeithasol i osgoi mynd yn groes i'r rheoliadau hyn.
- Byddwch yn brydlon!
- Meddyliwch pa neges yr hoffech chi ei rhoi i fyfyrwyr am eich cymdeithas tra byddwch wedi mynnu eu sylw am y cyfnod byr

Pethau i'w hosgoi:



- Peidiwch ag ymddwyn mewn ffordd a fydd yn rhwystro pobl rhag mynd at eich bwrdd - meddyliwch yn ôl i'ch diwrnod / wythnos gyntaf chi, a sut roeddech chi'n teimlo bryd hynny; ceisio osgoi dychryn pobl i ffwrdd.
- Peidiwch â gorfodi unrhyw un i ymuno â'r clwb neu'r gymdeithas - gallwch geisio eu perswadio, ond peidiwch byth â rhoi pwysau ar rywun i ymuno â'ch tîm gan wneud iddyn nhw deimlo'n anghyfforddus
- Peidiwch â gadael eich bwrdd yn wag ac yn anniddorol
- Peidiwch ag anwybyddu unrhyw fyfyrwyr sy'n dangos diddordeb yn eich clwb / cymdeithas

Rhowch Gynnig Arni

Yn y bôn, sesiwn 'flasau' yw sesiwn Rhowch Gynnig Arni. Mae'n caniatáu i bobl roi cynnig ar weithgaredd / sesiwn / cymdeithas neu glwb cyn ymrwymo i ymuno. Dyma'ch cyfle i chwilio am y myfyrwyr hynny nad ydynt efallai wedi mynychu Ffeiriau'r Glas neu a allai fod eisiau rhoi cynnig ar rywbeth newydd. Pwy a wŷr, efallai mai eich clwb / cymdeithas chi yw'r ateb?

Mae llawer o'r un egwyddorion yn berthnasol i gynnal sesiwn RhGA â Ffair y Glas; ond y tro hwn mae'r ffocws i gyd ar yr hyn sydd gennych chi i'w gynnig, ac mae'r bobl sy'n mynychu yn bendant â diddordeb.

Mae'r UM wedi creu ffurflen i chi ddeall yn well pam y byddwch chi am gynnal sesiwn RhGA a'r pethau y bydd eu hangen arnoch chi gan eich tîm, ni yn yr UM ac aelodau'r pwyllgor.

Manteision cynnal sesiwn Rhowch Gynnig Arni:

- Potensial i arwain sesiynau hyfforddi a datblygu'ch hun
- Bydd y clwb yn datblygu o ran gallu cynnig gwell sesiynau hyfforddi neu gael eu harwain mewn ffordd fwy adeiladol
- Bydd yn gwella profiad myfyrwyr / aelodau'r clwb
- Bydd myfyrwyr sy'n cael profiad cadarnhaol yn creu bwrlwm o amgylch y campws ac o bosibl yn annog mwy o aelodau

Gwnewch yn sicr eich bod yn:

- Cynllunio'ch sesiwn ymlaen llaw - gwnewch yn siŵr eich bod chi'n meddwl am yr hyn rydych chi am ei gynnwys ar gyfer aelodau newydd cyn y digwyddiad



- Mae'n bwysig ystyried efallai mai hwn yw'r tro cyntaf i'r myfyriwr roi cynnig ar y gweithgaredd, felly byddwch yn amyneddgar, ac ystyriwch y risgiau wrth wneud hynny
- Meddyliwch am sesiynau dilynol, felly pryd mae'ch hyfforddiant neu ddigwyddiad cymdeithasol nesaf ar gyfer y clwb/cymdeithas, y gallant eu mynychu os ydynt wedi mwynhau'r profiad?
- Meddyliwch sut y gallwch chi gysylltu â nhw / sut y gallan nhw gysylltu â chi yn y dyfodol - cyfryngau cymdeithasol neu'r wefan efallai?

AC: Cynnal 1 Digwyddiad Codi a Rhoi (RAG) a Chynnal 1 Digwyddiad Codi Arian:

Mae dau fath o ddigwyddiad y gall Clybiau a Chymdeithasau gymryd rhan ynddyn nhw o ran arian. Mae yna ddigwyddiadau Codi a Rhoi, sy'n canolbwyntio ar waith elusennol, a Chodi Arian, sy'n canolbwyntio ar godi arian ar gyfer cronfa'ch clwb.

Mae gwaith Codi a Rhoi a chodi arian i'ch clwb fel arfer yn golygu digwyddiadau tebyg iawn, ac mae'r canllawiau'r un fath yn aml. Rydym wedi cynnwys rhywfaint o wybodaeth am y 'rheolau' ynghylch codi arian isod:

Pethau i'w gwneud:

- Rhaid codi arian mewn modd moesegol, tryloyw a chyfreithlon.
- Rhaid i chi fod yn gwrtais ac yn broffesiynol.
- Ni ddylech feirniadu na sarhau pobl neu sefydliadau eraill yn annheg.
- Dylid casglu pob arian yn y tuniau casglu diogel a ddarperir.
- Rhaid i ddau aelod o'ch tîm gyfrif yr holl arian a godir.
- Rhaid dod â'r holl arian a godir i UM PCyDDS cyn pen 7 diwrnod ar ôl diwedd y gweithgaredd codi arian.
- Rhaid i chi storio'r arian a godir yn ddiogel nes iddo gyrraedd UM PCyDDS.

Pethau i'w hosgoi:

- Gweithredu mewn ffordd a allai achosi lefelau uchel o straen i aelodau'r cyhoedd.
- Bod yn anonest neu'n ystrywgar.
- Gweithredu mewn ffordd a allai niweidio enw da UM PCyDDS neu'r Brifysgol, er enghraifft:
 - Ysmygu neu yfed wrth godi arian.
 - Cymryd, neu fod o dan ddylanwad, cyffuriau anghyfreithlon.
 - Ymddwyn yn anwedus, yn ymosodol neu regi.



- Peidiwch ag ysgwyd y tun.
- Rhoi pwysau gormodol ar aelodau'r cyhoedd neu fyfyrwyr eraill i gyfrannu.
- Manteisio ar eich swyddogaeth er budd personol.
- Ymelwa ar amgylchiadau personol unigolyn.
- Cymryd mantais ar rywun na all ddeall y sefyllfa yn llawn.
- Gofyn am roddion gan rywun o dan 18 oed.
- Rhaid i chi osgoi achosi rhwystr, tagfeydd ar y palmant neu fod yn niwsans i'r cyhoedd.
- Rhaid i chi beidio â rhwystro nac ymyrryd ag aelodau staff o fusnesau lleol, na'u hamharchu.

Y Rheol Tri Cham

- Wrth godi arian, rhaid i chi gydymffurfio â'r rheol 'tri cham'.
- Rhaid i chi beidio â chymryd mwy na thri cham ochr yn ochr â'r person na'u dilyn.
- Os nad yw'r aelod o'r cyhoedd wedi dod i stop o fewn y tri cham, rhaid i chi ddod â'ch ymgais i siarad â nhw i ben.
- Ni ddylech ddilyn person y tu hwnt i'r rheol 'tri cham'.

Rydym hefyd wedi cynnwys enghraifft o'r ffurflen y mae'n rhaid i chi ei llenwi i dalu unrhyw 'arian parod' i mewn i'ch cyfrif banc UM neu ei roi i'r elusen o'ch dewis; mae'n hynod bwysig nad ydych chi'n dal eich gafael mewn arian parod lle bynnag y bo modd.

Edrychwch ar Wefan yr Undeb i gael mwy o wybodaeth am godi arian neu cysylltwch â'ch Cydlynnydd Cyfleodd Myfyrwyr gydag unrhyw gwestiynau.

[Codi a Rhoi @ Undeb Myfyrwyr PCyDDS \(uwtsdunion.co.uk\)](http://uwtsdunion.co.uk)

AC: Darparu rhestr gyfoes o offer

Mae darparu rhestr gyfoes o offer yn cyflawni nifer o bethau. Yn gyntaf, mae'n eich helpu chi fel cymdeithas i gadw golwg ar ba offer sydd gennych chi. Os oes unrhyw beth wedi mynd ar goll neu ei ddifrodi, a bod angen prynu eitem newydd yn ei le o bosib, gall eich helpu wrth wneud cais am arian Grant ar gyfer offer neu weithgareddau newydd.

Yn ail, mae'n ein helpu ni yn Undeb y Myfyrwyr i wybod beth rydych chi'n berchen arno fel clwb at ddibenion yswiriant.



Trinity Saint David
**Students'
Union**

**Undeb
Myfyrwyr**
Y Drindod Dewi Sant

Dylech wirio'ch rhestr eiddo o leiaf unwaith y flwyddyn, ei chymharu â rhestr eiddo'r flwyddyn flaenorol a gweld a oes unrhyw beth ar goll. Os oes, rhowch wybod i'ch Cydlynnydd Cyfleoedd Myfyrwyr ar unwaith.

Rydym wedi cynnwys templed i chi isod!



Rhestr Offer Clybiau a Chymdeithasau UM PCyDDS							
Enw'r Clwb neu Gymdeithas:		Cwblhawyd gan:		Rôl:		Dyddiad:	
Eitem: <i>(Beth yw hwn?)</i>	Nifer: <i>(Faint o'r rhain sydd gennych chi?)</i>	Ansawdd: <i>(Ydy hwn yn newydd? Oes yna unrhyw ddifrod? Oes rhannau o set ar goll?)</i>	Ble mae'n cael ei storio? <i>(A yw'n ddiogel?)</i>	Sut ydych chi'n cael gafael arno? <i>(Pwy sydd â'r offer? A yw'n cael ei storio ar y safle?)</i>	Pa mor hen yw e? <i>(os yw'n hysbys)</i>	Cost/gwerth yn fras: <i>(os yw'n hysbys)</i>	Nodiadau:



AC: Cael 2 aelod i fynychu hyfforddiant Cymorth Cyntaf

Cynigir hyfforddiant cymorth cyntaf i aelodau Pwyllgor Gwaith pob clwb a chymdeithas, bob blwyddyn Academiaidd. Ar gyfer yr elfen hon o'r Amcanion Cyffredin, rydym am i chi gynnig dau aelod ar gyfer hyfforddiant Cymorth Cyntaf.

Ar ôl iddynt gael eu hyfforddi, rydym yn disgwyl i o leiaf un o'ch aelodau sydd wedi derbyn hyfforddiant Cymorth Cyntaf i fynychu eich digwyddiadau a'ch gweithgareddau.

Bydd y dyddiadau ar gyfer yr hyfforddiant yn cael eu rhannu bob blwyddyn academiaidd gan eich Cydlynnydd Cyfleoedd Myfyrwyr, felly gwnewch yn siŵr bod rhestr aelodaeth eich Pwyllgor Gwaith yn gyfoes!

AC: Cynnal 1 digwyddiad ar-lein i hyrwyddo cynhwysiad myfyrwyr sy'n byw oddi ar y safle

Ar gyfer y gweithgaredd hwn rydym am i chi gynnal digwyddiad ar-lein; gallai hyn fod yn unrhyw beth o gwis i ddigwyddiad cymdeithasol. Mae cyfnodau clo wedi tynnu sylw at sut y gall digwyddiadau ar-lein gynyddu eich aelodaeth trwy gynnwys myfyrwyr na allent fynychu sesiynau traddodiadol, gan gynnwys dysgwyr o bell i'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu.

Pethau i'w hystyried wrth gynllunio digwyddiad ar-lein.

- Meddylwch pa fath o ddigwyddiad yr hoffech chi ei gynnal, ac a yw'n bosibl gwneud hynny ar-lein. Os ydych chi'n ei chael yn anodd dod o hyd i syniadau, gallwch edrych ar y ddolen hon gan *Organised Fun* - [Syniadau ar gyfer digwyddiadau ar-lein i gymdeithasau a chlybiau Undeb y Myfyrwyr sy'n ddiogel o ran COVID-19 - Hwyl wedi'i Drefnu](#), neu cysylltwch â'r UM i drafod rhai syniadau a pha mor ymarferol ydyn nhw.
- Yn union fel archebu lleoliad, bydd angen i chi ddewis platfform a fydd yn caniatáu i chi gynnal eich digwyddiad; gallai hyn fod yn gyfryngau cymdeithasol fel Instagram neu Facebook. Gallwch hefyd ddefnyddio llwyfannau fel Teams a Zoom. Bydd hefyd angen i chi weld faint o bobl y bydd y platfform yn caniatáu i chi eu gwahodd, a sut y gall myfyrwyr ymuno.
- Cyllideb - Bydd angen i chi gofio meddwl am unrhyw arian y gallai fod angen ei wario ar ddigwyddiad ar-lein. Efallai y bydd angen i chi dalu am weithgaredd penodol fel ystafell ddianc ar-lein. Neu efallai y byddwch chi'n



cynnal digwyddiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i adnoddau gael eu hanfon at fyfyrwyr, e.e. cynhwysion ar gyfer sesiwn goginio

- Hyrwyddo - Gall fod yn anoddach hysbysebu digwyddiad ar-lein na digwyddiad wyneb-yn-wyneb. Y ffordd orau o hysbysebu'r digwyddiad fyddai trwy'r strwythurau canlynol: Taflenni / posteri o amgylch y campws, postiad ar gyfryngau cymdeithasol, postiad ar wefan yr UM, e-bost at yr holl fyfyrwyr ac anfon negeseuon at staff a myfyrwyr allweddol ar bob campws i ledaenu'r gair.
- Cofiwch fod â Chynllun B - Mae digwyddiadau ar-lein fel arfer yn gofyn am gysylltiad rhyngrwyd da a bod gan bawb fynediad a gwybodaeth yngylch sut i gael mynediad i'r gweithgaredd. Meddyliwch am yr hyn a allai fynd o'i le, yn union fel y byddech chi ar gyfer asesiad risg, a gwnewch yn siŵr fod gennych chi gynllun wrth gefn. Er enghraifft, gallwch fod yn cynnal cwis a gofyn i fyfyrwyr lenwi ffurflenni Microsoft. Efallai na fydd gan rai myfyrwyr fynediad at hyn, a dylech sicrhau bod ffordd arall y gallant gyflwyno eu hatebion; gallai hyn fod yn dynnu llun o'u hatebion a'u hanfon trwy e-bost at y cwis-feistr.

Gellir dod o hyd i ragor o awgrymiadau da ar gyfer digwyddiadau ar-lein ar Eventbrite - [Sut i gynnal Digwyddiad Rhithiol: Y Canllaw Hanfodol \(eventbrite.com\)](https://www.eventbrite.com)

Gweithgareddau ar gyfer yr Elfen Ryddhad:

Dim ond tuag at gynnydd yr Elfen Ryddhad y bydd y gweithgareddau hyn yn cyfrif.



Cymryd rhan neu fynd ati i Gynnal un digwyddiad Rhyddhad gyda'r UM / Prifysgol sy'n berthnasol i'ch grŵp.

Mae'r UM a'r Brifysgol yn aml yn cynnal / cefnogi gwahanol ddigwyddiadau trwy gydol y flwyddyn academaidd, sy'n cael effaith gadarnhaol ar y myfyrwyr hynny sy'n uniaethu â grwpiau sydd angen rhyddhad.

Bydd angen i chi fod yn rhan o / cefnogi un o'r digwyddiadau hyn neu greu eich digwyddiad eich hun i gefnogi rhyddhad.

Manteision:

- Creu perthnasoedd gwaith da gyda'r UM a'r Brifysgol.
- Dysgu sut i gynllunio a chreu digwyddiad.
- Gwella'ch gwaith tîm, a fydd yn ei dro yn creu perthnasoedd cryfach rhwng aelodau'r gymdeithas/clwb.
- Sgiliau trefnu a phennu tasgau yn seiliedig ar gryfderau a gwendidau pobl.

Bydd Ffynhonnell 1, sydd i'w gweld isod, yn eich helpu i ystyried sut rydych chi'n cynllunio digwyddiad wyneb-yn-wyneb ac ar-lein. Mae yna hefyd dabl (Ffynhonnell 2) ar gael i chi ei ddefnyddio wrth bennu gwaith.

Ffynhonnell 1: Awgrymiadau ar gyfer cynllunio digwyddiad

Wrth weithio ar yr elfen Ryddhad ar gyfer Achrediad Clybiau a Chymdeithasau, bydd yn rhaid i chi gynnal digwyddiad rhyddhad neu gymryd rhan mewn digwyddiad sy'n cael ei redeg gan y rhwydweithiau, yr UM neu'r Brifysgol. Os ydych chi'n penderfynu mynd ati i gynnal eich digwyddiad eich hun i gefnogi Rhwydwaith Rhyddhad, bydd angen i chi ddilyn yr awgrymiadau isod i sicrhau bod popeth yn mynd yn ôl y cynllun.

Cofiwch mai awgrymiadau byr yw'r rhain, ac y byddwch yn cael eich hyfforddi ar gynnal digwyddiadau yn ystod un o'ch sesiynau hyfforddiant misol. Mae croeso i chi ofyn i'ch Cydlynnydd Cyfleoedd Myfyrwyr yn Undeb y Myfyrwyr am fwy o gymorth yn y maes hwn.

Pethau i feddwl amdanynt wrth gynllunio digwyddiad:

- Asesiad risg - bydd angen asesu pob digwyddiad o ran risg. Gall Undeb y Myfyrwyr ddarparu templed asesu risg a hefyd eich helpu i fynd drwyddo. Diben yr asesiad risg yw sicrhau eich bod chi'n ystyried diogelwch pawb, y pethau a allai fynd o chwith yn eich digwyddiad ac osgoi anafiadau.



(Dangosir i chi sut i wneud hyn yn ystod hyfforddiant Clybiau a Chymdeithas, ond gallwch hefyd gael gafael ar ragor o wybodaeth am asesiadau risg yn y Pecyn Gofynion Gorfodol.)

- Pennwch gyfrifoldebau i aelodau'r pwyllgor - Rhannwch y llwyth gwaith a gwnewch yn siŵr bod pawb yn defnyddio eu sgiliau hyd eithaf eu gallu. Bydd angen creu rhestr wirio y gallech ei defnyddio i bennu tasgau.
- Mae angen dewis / llogi lleoliad - Heb leoliad ni allwch hyrwyddo'ch digwyddiad. Sicrhewch leoliad yn gyntaf; bydd gan rai campysau fannau lle gallwch chi gynnal digwyddiadau, efallai y bydd gan gampysau eraill leoliadau lleol y gallech chi gysylltu â nhw. Wrth ddewis lleoliad, mae'n bwysig eich bod chi'n meddwl am gynhwysiant; dylai'r lleoliad geisio sicrhau y gall unrhyw fyfyrwr fynychu, waeth beth yw'r rhwystrau, e.e. defnyddio cadair-olwyn.
- Cyllideb - Mae angen creu cynllun cyllid; gwybod beth rydych chi am wario'ch arian arno a faint y gallai cyfanswm y gost fod. Gwiriwch gyda rheolwr cyllid Undeb y Myfyrwyr i weld faint o arian sydd gan eich clwb neu gymdeithas yn eu cyfrif, a gwnewch yn siŵr eich bod ond yn gwario'r hyn sydd gennych, er mwyn peidio â mynd i ddyled. Ewch i'r Pecyn Datblygu Clwb i gael gafael ar y traciwr cyllid, y gallwch ei ddefnyddio i aros ar y trywydd iawn.
- Hyrwyddwch eich digwyddiad - Wrth hyrwyddo'ch digwyddiad, mae angen i chi feddwl pwy yw'ch cynulleidfia a sut y byddwch chi'n eu denu i'ch digwyddiad. Os ydych chi'n cynnal digwyddiad i godi ymwybyddiaeth ynghylch Hygyrchedd, fe allech chi hefyd gysylltu â rhwydwaith rhyddhad y myfyrwyr Anabl; fe allent hyrwyddo i'w haelodau a rhannu'ch digwyddiad hefyd. Gallech hefyd ofyn i'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr helpu i hyrwyddo'ch digwyddiad trwy eu gwefannau a'u cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Beth allech chi ei wneud? Fe allech chi anfon e-byst at fyfyrwyr, creu posteri a'u gosod o amgylch y campws; fe allech chi hefyd weiddi allan mewn darlithoedd.
- Adolygwch eich rhestr wirio - Ewch trwy'ch rhestr wirio a gwnewch yn siŵr bod yr holl dasgau wedi'u cwblhau gan eich pwyllgor; gwnewch yn siŵr eich bod chi i gyd yn barod i'r digwyddiad gael ei gynnal.

Pethau i'w hystyried wrth gynllunio digwyddiad ar-lein.

- Meddyliwch pa fath o ddigwyddiad yr hoffech chi ei gynnal, ac a yw'n bosibl gwneud hynny ar-lein. Os ydych chi'n ei chael yn anodd dod o hyd i syniadau, gallwch edrych ar y ddolen hon gan Organised Fun - [Syniadau ar gyfer digwyddiadau ar-lein i gymdeithasau a chlybiau Undeb y Myfyrwyr sy'n ddiogel o ran COVID-19 - Hwyl wedi'i Drefnu](#), neu cysylltwch â'r UM i drafod rhai syniadau a pha mor ymarferol ydyn nhw.



- Yn union fel archebu lleoliad, bydd angen i chi ddewis plattform a fydd yn caniatáu i chi gynnal eich digwyddiad; gallai hyn fod yn gyfryngau cymdeithasol fel Instagram neu Facebook. Gallwch hefyd ddefnyddio llwyfannau fel Teams a Zoom. Bydd hefyd angen i chi weld faint o bobl y bydd y plattform yn caniatáu i chi eu gwahodd, a sut y gall myfyrwyr ymuno.
- Cyllideb - Bydd angen i chi gofio meddwl am unrhyw arian y gallai fod angen ei wario ar ddigwyddiad ar-lein. Efallai y bydd angen i chi dalu am weithgaredd penodol fel ystafell ddianc ar-lein. Neu efallai y byddwch chi'n cynnal digwyddiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i adnoddau gael eu hanfon at fyfyrwyr, e.e. cynhwysion ar gyfer sesiwn goginio
- Hyrwyddo - Gall fod yn anoddach hysbysebu digwyddiad ar-lein na digwyddiad wyneb-yn-wyneb. Y ffordd orau o hysbysebu'r digwyddiad fyddai trwy'r strwythurau canlynol: Taflenni / posteri o amgylch y campws, postiad ar gyfryngau cymdeithasol, postiad ar wefan yr UM, e-bost at yr holl fyfyrwyr ac anfon negeseuon at staff a myfyrwyr allweddol ar bob campws i ledaenu'r gair.
- Cofiwch fod â Chynllun B - Mae digwyddiadau ar-lein fel arfer yn gofyn am gysylltiad rhyngwyd da a bod gan bawb fynediad a gwybodaeth yngylch sut i gael mynediad i'r gweithgaredd. Meddyliwch am yr hyn a allai fynd o'i le, yn union fel y byddech chi ar gyfer asesiad risg, a gwnewch yn siŵr fod gennych chi gynllun wrth gefn. Er enghraifft, gallwch fod yn cynnal cwis a gofyn i fyfyrwyr lenwi ffurflenni Microsoft. Efallai na fydd gan rai myfyrwyr fynediad at hyn, a dylech sicrhau bod ffordd arall y gallant gyflwyno eu hatebion; gallai hyn fod yn dynnu llun o'u hatebion a'u hanfon trwy e-bost at y cwis-feistr.

Gellir dod o hyd i ragor o awgrymiadau da ar gyfer digwyddiadau ar-lein ar Eventbrite - [Sut i gynnal Digwyddiad Rhithiol: Y Canllaw Hanfodol \(eventbrite.com\)](https://www.eventbrite.com)

Yn olaf, meddyliwch am ba mor gynhwysol yw eich digwyddiad; defnyddiwch eich cyfansoddiad a'r llawlyfr Cynhwysiant i sicrhau eich bod chi'n meddwl am bopeth a allai fod yn rhwystr i wahanol fyfyrwyr sy'n mynychu'ch digwyddiad.

Amrywioldeb

Bydd gwrando ar farn eich gwahanol aelodau a'ch pwyllgor yn eich helpu i gynllunio digwyddiadau a fydd yn amrywiol, a thrwy hynny apelio at eich aelodaeth gyfan.

Cynhwysol

Er bod angen i chi deilwra'ch digwyddiadau i gynnig amrywiaeth a fydd yn apelio at wahanol bobl, rhaid i chi sicrhau bod eich digwyddiadau'n gynhwysol i bob aelod. Mae croeso i bob aelod ddod i bob digwyddiad, ac mae'n rhan o'ch dyletswydd i fod



yn gyfeillgar ac yn agos-atoch ym mhob digwyddiad a chroesawu pawb sy'n mynychu'r digwyddiadau hynny.

Bod yn gytbwys

Rhaid bod â chydbwysedd cyfartal o ddigwyddiadau, felly mae'n rhaid i'r gymhareb ar gyfer digwyddiadau sy'n cynnwys alcohol a'r rhai sydd ddim fod o leiaf 50-50. Gallwch gynnig llai o ddigwyddiadau sy'n cynnwys alcohol, ond dim mwy na 50% o'ch holl bortffolio o ddigwyddiadau. Mae hyn yn bwysig, gan ei fod yn golygu eich bod chi'n cynnig amrywiaeth, a'ch bod yn gynhwysol i fyfyrwyr sydd ddim am yfed, yn ogystal â'r rhai sydd am wneud hynny. Pan fyddwch chi'n mynd ati i gynllunio eich digwyddiadau ar ddechrau'r flwyddyn, mae angen i chi fod â chydbwysedd o ddigwyddiadau.

- Dim digwyddiadau wedi'u rhannu
- Digwyddiadau cymdeithasol di-alcohol
- Lleoliadau hygyrch
- Balchder mewn hyfforddiant Tîm PCyDDS
- Clyweliadau / treialon teg
- Ceisiwch wneud gweithgareddau'n fforddiadwy.
- Dim defodau derbyn

Ffynhonnell 2:

Llinell Amser ar gyfer Gweithredu

Teclyn at ddefnydd arweinydd y prosiect. Rhestrwch y gweithredoedd gan weithio tuag yn ôl yn gronolegol.

Gweithred	Wedi'i ddirprwyo i	Dyddiad cwblhau	Nodiadau



Ymgysylltu â'r Swyddog Rhan-amser / Arweinydd Rhyddhad perthnasol a'u digwyddiadau

Mae gan Undeb y Myfyrwyr bedwar grŵp rhyddhad dan arweiniad myfyrwyr.

1. Rhwydwaith y Menywod
2. Rhwydwaith Anabled.



3. Rhwydwaith LHDTG+
4. Rhwydwaith Pobl Dywyll eu Croen (Mae'n bosib y bydd y grŵp hwn yn rhannu i gwmpasu ein myfyrwyr Croenddu, Asiaidd a Lleifafrifol Ethnig).

Gall y grwpiau hyn sefydlu ymgyrchoedd a digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth a chefnogi'r myfyrwyr hynny sy'n aelodau. Mae gan yr holl grwpiau opsiwn i gynnwys cefnogwyr; fel clwb/cymdeithas dylech gysylltu â'r arweinwyr a chynnig helpu gyda digwyddiadau/ymgyrchoedd.

Mae'r ddolen hon yn mynd â chi i'r rhwydweithiau rhyddhad ar wefan yr UM - [Groups @ Students' Union UWTSD \(uwtsdunion.co.uk\)](https://groups@uwtsdunion.co.uk)

Mae gan bob grŵp adran ar arweinwyr a hefyd digwyddiadau i chi gadw golwg ar yr hyn sy'n digwydd gyda nhw.

Manteision:

- Cyfle i adeiladu perthnasoedd â'r rhwydweithiau Rhyddhad.
- Gwell dealltwriaeth o sut y gall clybiau a chymdeithasau ddod yn fwy agored a chynnwys myfyrwyr o'r rhwydweithiau rhyddhad.
- Y posibilrwydd o aelodau newydd o'r rhwydweithiau.

Sicrhau bod eich cyfansoddiad yn gynhwysol

Wrth greu eich cyfansoddiad, mae'n bwysig sicrhau eich bod yn ystyried sut y bydd eich clwb/cymdeithas yn gynhwysol i bob myfyriwr. Wrth wneud hyn, dylech feddwl am bethau fel hygyrchedd.

Mae Ffynhonnell 3 yn ddolen i'n canllaw cynhwysiant ar gyfer clybiau a chymdeithasau.

Ffynhonnell 3 (Llawlyfr Cynhwysiant)

- https://uowtsd.sharepoint.com/:w:/t/ClubsSocsAccreditation_GRP/EdlpBYQpKXRLjErrmLGi8JYBATF_wh45t0tw1Vrc8tLEzQ?e=vTLoE9

Mae'r ddolen ganlynol ar gyfer gwybodaeth ar-lein gan UM arall a allai helpu i ysbrydoli'r hyn y dylech ei gynnwys yn eich cyfansoddiad.

<https://keelesu.com/pageassets/yourunion/campaign/Liberation-Tool-Kit.pdf>



Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch am beth yw cyfansoddiad a'r hyn sydd angen ei gynnwys, gallwch fwrw golwg ar y pecyn Gofynion Gorfodol.

Manteision:

- Byddwch yn dysgu sut i ysgrifennu cyfansoddiad
- Byddwch yn fwy ymwybodol o'r rhwystrau sy'n effeithio ar wahanol fyfyrwyr a sut i wneud clybiau a chymdeithasau yn fwy deniadol a hygyrch i bawb.
- Gall dysgu mwy am gynhwysiant eich helpu i osgoi problemau a allai effeithio ar ddigwyddiadau a.y.b. os nad ydych chi wedi meddwl amdanynt yn drylwyr ar y dechrau, gan roi ystyriaeth i gynnwysoldeb.

Nodi Elusen Ryddhad i'w chefnogi trwy godi arian a / neu godi ymwybyddiaeth

Fel rhan o ddysgu mwy am ryddhad, mae'n bosib y byddwch chi'n dod o hyd i elusen y gallwch chi weithio drosti. Gall hyn fod mor syml â chodi ymwybyddiaeth ynghylch eu prosiectau a'u digwyddiadau ar eich tudalen UM neu gyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Fe allech chi hefyd wneud rhywfaint o godi arian fel tîm; enghraifft o hyn fyddai gwisgo careiau lliw'r enfys ar gyfer elusen Stonewall.

Er mwyn eich helpu gyda hyn, rydym wedi darparu rhestr o wahanol elusennau sy'n cynnig cymorth i bobl a allai uniaethu â'r rhwydweithiau rhyddhau sydd dan arweiniad myfyrwyr.



Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr, ac mae croeso i chi drafod eich cefnogaeth i elusennau eraill gyda'ch Cydlynnydd Cyfleoedd Myfyrwyr.

Gweler ffynhonnell 4 am y rhestr.

Manteision:

- Byddwch yn dysgu ehangu eich rhwydwaith a meithrin perthnasoedd â rhanddeiliaid allanol.
- Y teimlad o falchder a ddaw yn sgil rhoi rhywbeth yn ôl a gwybod eich bod wedi cefnogi achos gwydch gan ddefnyddio'ch platfform fel clwb/cymdeithas.
- Dealltwriaeth ddyfnach o'r anawsterau sy'n wynebu pobl eraill na fyddwch chi byth yn eu profi o bosib, oherwydd na allwch uniaethu â'r grŵp hwnnw o bobl yn eich bywyd bob-dydd.

Ffynhonnell 4:

Ffynhonnell 4:

Fel Clwb neu Gymdeithas, mae gennych chi gyfle i godi ymwybyddiaeth ar gyfer gwahanol elusennau a chynnig cefnogaeth iddynt. Fel rhan o'r elfen Ryddhad o'r system Achrediad Clybiau a Chymdeithasau, mae'n ofynnol i chi gefnogi elusen sy'n dod o dan un o rwydweithiau rhyddhad Undeb y Myfyrwyr sydd dan arweiniad myfyrwyr.

Isod mae rhestr a awgrymir o elusennau mwyaf blaenllaw'r DU y gallech chi godi arian ar eu cyfer neu hyd yn oed eu hyrwyddo i eraill gan ddefnyddio'ch rôl fel Clwb/Cymdeithas. Os ydych chi'n gwybod am elusen sy'n ymwneud ag unrhyw un o'r rhwydweithiau nad ydyn nhw'n cael eu crybwyll yn y rhestr, cysylltwch â'r Swyddog Cyfleoedd ar eich campws a all roi gwybod i chi a yw'r elusen rydych chi am ymwneud â hi yn dderbyniol.

Rhyddhad y Menywod

- Ymgyrch Mislif UM PCyDDS (<https://www.bloodygoodperiod.com/>) - Ymgyrch Ymwybyddiaeth Mislif i ddod â thegwch i bawb sy'n cael mislif. Nid yw cynhyrchion sy'n angenrheidiol i unrhyw un sy'n cael mislif yn rhad, ac mewn rhai gwledydd, nid oes y fath beth â chynhyrchion i'w darparu i bobl sy'n cael mislif, ac mae hyn yn dangos bod tlodi'r mislif yn bodoli. Mae'r arian y maen nhw'n ei ennill fel elusen yn caniatáu iddyn nhw roi cynhyrchion mislif i bobl sydd wir eu hangen nhw. Maen nhw'n darparu canolfannau galw-heibio, ac mae hyn yn caniatáu i bobl sy'n cael mislif alw heibio a chael yr hyn sydd ei angen arnyh nhw heb gael eu barnu mewn unrhyw ffordd.
- Cymdeithas Fawcett (https://www.fawcettsociety.org.uk/?gclid=Cj0KCQjw9YWDBhDyARIsADt6sGbel4KfYny2YU1Zk9JC3ztFnPO_0LwfhnQgCPWni5rqsgn92uzAwlMaAkXMEAL_) - Mae Cymdeithas Fawcett yn elusen sy'n ymgyrchu dros gydraddoldeb rhywedd; maen nhw'n ymladd dros hawliau menywod yn y gweithle, yn eu



cartrefi ac mewn cymdeithas yn gyffredinol. Nhw yw etifeddiaeth y suffragist Millicent Fawcett, ac maen nhw'n parhau i ymchwilio ac ymgyrchu yn erbyn yr anghydraddoldeb sy'n dal i wynebu menywod yn eu bywyd bob-dydd.

- Menywod Mewn Chwaraeon (<https://www.womeninsport.org/>) - Mae gan yr elusen hon un nod a hynny yw sicrhau bod pob dynes a merch yn cael cyfle i elwa o gyfranogi mewn chwaraeon. Maen nhw am sicrhau nad yw menywod yn colli allan ar chwaraeon, a'u bod yn cael yr un cyfleoedd â dynion. Nhw yw'r unig sefydliad yn y DU sy'n gwneud ymchwil i chwaraeon o safbwynt menywod a merched; defnyddir yr holl ymchwil hwn i ymgyrchu dros newidiadau ar ran menywod mewn chwaraeon.
- Cymorth i Fenywod (https://www.womensaid.org.uk/?gclid=Cj0KCQjw9YWDBhDyARIsADt6sGZMAKqmAGezPZF-9fCzs4Zam50qOlopnVhPH8TKzvZfnXklkNzIA8aAg63EALw_wcB) - Mae'r elusen hon yn gweithio'n galed i roi diwedd ar gam-drin menywod a phlant yn y cartref. Mae eu gwasanaethau'n helpu i arbed bywydau; maen nhw'n cynnig cymorth i lawer o aelodau a goroeswyr gan eu gosod wrth galon popeth maen nhw'n ei wneud. Maent hefyd yn ymgyrchu ac yn addysgu eraill gyda'r gobaith y bydd cam-drin domestig un diwrnod yn cael ei ddiddymu unwaith ac am byth.

Rhyddhad Pobl Dywyll eu Croen.

- Ymddiriedolaeth Runnymede (<https://www.runnymedetrust.org/>) - Mae hwn yn sefydliad sy'n ymchwilio i wybodaeth a all helpu i herio anghydraddoldeb. Trwy feddu ar ymchwil dibynadwy, gallant newid polisi a cheisio amlygu hiliaeth mewn cymdeithas.
- SARI (<https://www.sariweb.org.uk/>) - Mae SARI yn elusen sy'n cynnig cymorth i unrhyw un sydd wedi wynebu troseddau casineb, o hiliaeth i ragfarn ar sail oedran. Maent hefyd yn darparu hyfforddiant i ysgolion i ddysgu plant a staff am hiliaeth, troseddau casineb, gwahaniaethau diwylliannol a nodweddion gwarchodedig, er mwyn helpu i addysgu'r genhedlaeth nesaf.
- *Kick It Out* (https://www.kickitout.org/?gclid=Cj0KCQjwPaCBhDkARIsAISZN7QEotlNOjwYaQMy2PDIqY3ONBH68S5TVvdFqH6YZDtFJiTingrUrnoaAoJhEALw_wcB) - Sefydliad a ddechreuodd trwy geisio tynnu hiliaeth a chamwahaniaethu allan o'r gêm bêl-droed; ers eu hymgyrch wreiddiol mae ganddyn nhw genhadaeth bellach i herio hiliaeth, camwahaniaethu a mynd i'r afael ag allgau mewn cymdeithas yn ehangach. Maen nhw'n gobeithio y gallant, trwy bêl-droed, helpu eraill i herio agweddau ac ymddygiad hiliol.



- *Blueprint for all* (<https://www.blueprintforall.org/>) - Yn flaenorol, gelwid *Blueprint* yn 'Ymddiriedolaeth Elusennol Stephen Lawrence'. Mae holl waith yr elusen yn mynd i'r afael â'r prif heriau sy'n atal pobl dywyll eu croen rhag cael llwyddiant yn eu bywyd bob-dydd. Maent yn credu na ddylai hil, ethnigrwydd a chefnidir fyth fod yn ffactor o ran yr hyn mae rhywun yn gallu ei gyflawni. Mae *Blueprint* yn adeiladu gyrfaedd, yn cefnogi cymunedau ac yn cyfoethogi cymdeithas trwy eu rhaglenni a'u cyfleoedd ysbrydoledig.

Rhyddhad Pobl Anabl.

- *Action for Kids* (<https://www.my-afk.org/>) - Mae'r elusen hon yn helpu i baratoi pobl ifanc ag anableddau, anawsterau dysgu ac awtistiaeth ar gyfer bywyd ar ôl addysg. Maent yn helpu trwy ddarparu rhaglenni hyfforddiant a phrofiad gwaith. Maent hefyd yn helpu i ddarparu offer symudedd i bobl ifanc hyd at 25 oed nad yw ar gael gan y GIG.
- RNID (<https://rnid.org.uk/about-us/>) - Mae'r elusen hon yn bodoli i wella bywydau'r rhai sy'n fyddar, sydd â nam ar eu clyw, neu'n dioddef o broblemau fel tinnitus. Maen nhw'n arloeswyr mewn triniaethau newydd, maen nhw'n ymgyrchu dros gymdeithas gynhwysol ac yn rhoi cyngor ymarferol defnyddiol i'r holl bobl sy'n cysylltu â nhw am help.
- Leonard Cheshire (<https://www.leonardcheshire.org/about-us>) - Mae'r elusen hon wedi bod yn rhoi cymorth i bobl ag anableddau ers dros 70 mlynedd. Maent yn gweithio gyda'u partneriaid i greu mwy o gyfleoedd a chwalu rhwystrau sy'n dal i wadu pobl ag anableddau o'u hawliau sylfaenol.
- RNIB (<https://www.rnib.org.uk/>) - Mae'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Pobl Ddall yn elusen sy'n helpu i gefnogi pobl sy'n ddall neu sydd wedi colli rhywfaint o'u golwg. Maent yn rhoi cyngor ymarferol ac emosiynol yn ogystal â darparu gwasanaeth darllen. Maent hefyd yn ymgyrchu ac mae ganddynt siop gyda chynhyrchion i helpu pobl â nam ar eu golwg i gynnal gwell ansawdd bywyd.

Rhyddhad LHDTG+

- Stonewall (<https://www.stonewall.org.uk/>) - Mae hon yn elusen adnabyddus sy'n treulio llawer o'i hamser yn grymuso aelodau o'r gymuned LHDTG+ ledled y byd. Maent yn sefyll dros gynhwysiant ac yn gwrthsefyll bwlio o unrhyw fath sydd wedi'i anelu at y gymuned. Maent hefyd yn helpu sefydliadau i ddod yn fwy cynhwysol a gweld buddion a gwerthoedd pobl LHDTG+. Mae Stonewall hefyd yn ymgyrchu ac yn lloïo i newid y deddfau sy'n camwahanu yn erbyn hawliau dynol sylfaenol pobl LHDTG+.
- AKT (<https://www.akt.org.uk/>) - Mae AKT yn elusen yn y DU sy'n helpu pobl ifanc LHDTG+ rhwng 16-25 oed i ddod o hyd i lety diogel, cyflogaeth,



hyfforddiant a hybu derbyniad / grymuso ar gyfer eu hunaniaeth LHDTCT+. Mae pobl LHDTCT+ sy'n dod yn ddigartref yn fwy tebygol o wynebu trais a chamwahaniaethu ar y strydoedd; mae AKT yn cynnig llety "drws porffor" i'r rhai sydd angen lle i aros ar frys.

- *Mind Out* (<https://mindout.org.uk/>) - Mae *Mind Out* yn wasanaeth iechyd meddwl sy'n cael ei redeg a'i greu i gynnig cymorth i bobl LHDTCT+. Maent yn darparu cymorth ac adnoddau, codi arian a hefyd yn cynnig hyfforddiant i addysgu eraill ynghylch y gymuned LHDTCT+ a'r anawsterau y gallant eu hwynebu.
- *Galop* (<http://www.galop.org.uk/>) - Mae *Galop* yn elusen sy'n helpu i gynnig cymorth i bobl LHDTCT+ sydd wedi profi troseddau casineb, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Maent yn rhoi cyngor, cefnogaeth a chymorth ar eu gwefan a hefyd trwy eu llinell gymorth. Maent hefyd yn gweithio gyda phobl ifanc a hefyd yn darparu eiriolaeth ar ran pobl Draws.

Creu llawlyfr ar gyfer eich tîm/cymdeithas ar gyfer digwyddiadau a chyfleusterau cynhwysol

Gan ddefnyddio'r canllaw cynhwysiant (Ffynhonnell 3) dylech ystyried y rhwystrau y gallai pobl eu hwynebu wrth ymuno â'ch grŵp a sut y gallwch sicrhau nad yw hyn yn digwydd.

Dylai eich cyfansoddiad gynnwys adran ar ryddhad; byddwch yn nodi yma beth fyddwch chi'n ei wneud fel clwb/cymdeithas i atal myfyrwyr rhag cael eu hallgau. e.e. Bydd ein cymdeithas bob amser yn ceisio trefnu ein digwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer glas-fyfyrwyr mewn lleoliadau sydd â mynediad addas.

Ffynhonnell 3

- https://uowtsd.sharepoint.com/:w:/t/ClubsSocsAccreditation_GRP/EdlpBYQpKXRLjErrmLGi8JYBATF_wh45t0tw1Vrc8tLEzQ?e=vTLoE9

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch am beth yw cyfansoddiad a'r hyn sydd angen ei gynnwys, gallwch fwrw golwg ar y pecyn Gofynion Gorfodol.

Manteision:

- O'r dechrau, bydd eich tîm cyfan yn trafod ac yn cynllunio sut i redeg y digwyddiad mewn ffordd sy'n gynhwysol ac yn caniatáu amrywioldeb.
- Byddwch yn denu mwy o fyfyrwyr i'ch clwb oherwydd eich bod yn codi ymwybyddiaeth ac yn dangos cefnogaeth i'r myfyrwyr nad ydynt fel rheol yn teimlo bod clybiau a chymdeithasau yn hygyrch.



Trinity Saint David
**Students'
Union**

**Undeb
Myfyrwyr**
Y Drindod Dewi Sant